

Pwy sy'n cael pleidleisio yn yr Etholiadau hyn

Ar gyfer Etholiadau Senedd Cymru, mae'n rhaid eich bod:

- [Wedi cofrestru i bleidleisio](#): Os nad ydych eisoes wedi cofrestru, ewch i gov.uk/register-to-vote
- Yn 16 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad – 6 Mai 2021.
- Yn ddinesydd Prydeinig, Gwyddelig, yr Undeb Ewropeaidd neu ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad*.
- Yn ddinesydd cymwys o wlad arall sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yn y Deyrnas Unedig, neu'n rhywun nad oes angen caniatâd o'r fath arnoch.

*Dinesydd cymwys o'r Gymanwlad yw rhywun sydd â'r hawl i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yn y Deyrnas Unedig neu rywun nad oes angen hawl o'r fath arno/arni. Gellir dod o hyd i restr o'r gwledydd cymwys, Tiriogaethau Dibynnol ar Goron Prydain a Thiriogaethau Tramor Prydeinig ar [wefan y Comisiwn Etholiadol](#).

Ni all myfyrwyr bleidleisio ddwywaith yn etholiadau Senedd Cymru a byddent yn cyflawni trosedd pe baent yn gwneud hynny. Dylent ddewis rhwng pleidleisio yn eu cyfeiriad cartref neu yn eu cyfeiriad prifysgol a threfnu pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy yn ôl yr angen.